

Cronfa Ysgolion Bach Cymru ar gyfer Hyb

**Drwy roi punt yr wythnos gallwch chi gyfrannu at
ymchwil sy'n cefnogi ysgolion bach**

a'n cynorthwyo ni i gyrraedd £52,000 erbyn dydd Mawrth,

Tachwedd y 30^{ain}

Pwy sy'n trefnu'r gronfa? Cafodd Cronfa Ysgolion Bach Cymru ei sefydlu ym mis Ionawr 2005 i gefnogi'r ymdrechion i ddiogelu ysgolion bach Cymru. Ers ei sefydlu rydym wedi rhoi gwerth £15,400 o wobrau ariannol. Mae modd gweld rhestr lawn o'r enillwyr ar y wefan hon: www.acwss.org.uk

Beth sydd a wnelo Hyb â'r gronfa? Cafodd y gronfa ei sefydlu gan Gymdeithas Cymunedau Cymru gydag Ysgolion Bychain. Mae sawl sefydliad yn aelod o'r gymdeithas hon, gan gynnwys Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig, Undeb Amaethwyr Cymru, C.Ff.I Cymru, Merched y Wawr, Sefydliad y Merched a Chronfa Ysgolion Bach Cymru (adain gasglu arian y Gymdeithas). Diben y gymdeithas yw hyrwyddo'r buddiannau a'r cyfleodd a ddaw yn sgil datblygu cymunedol a chymdeithasol yn yr ardaloedd yng Nghymru sydd ag ysgolion bach.

Mae'r Gymdeithas bellach yn cydweithio gyda Hyb (a gafodd ei sefydlu yn 2009) i droi'r Gronfa Ysgolion Bach yn gronfa i gefnogi ymchwil Hyb i fuddiannau ysgolion bychain (www.hyb.org.uk). Mae ymchwil o'r fath yn hanfodol bwysig wrth ddadlau yn erbyn cau ysgolion bach.

Sut mae'r Gronfa'n gweithio? Mae pobl yn talu £1 yr wythnos i'r gronfa trwy archeb sefydlog. Mae 13 o wobrau pob chwarter (hyd at £700) ac mae'r gwobrau'n cynyddu wrth i fwy o aelodau ymuno. Bydd tâl gweinyddu o £6 ar y dechrau er mwyn chwyddo'r coffrau.

Beth am y gwobrau chwarterol? Rydym yn sicrhau bod trefn broffesiynol gennym er mwyn rhoi cadarnhad i'r aelodau o'u rhif. Mae'r e-bwletin chwarterol yn rhoi gwybod i'r aelodau pwy sydd wedi ennill ac mae'n fodd o sôn am y gwaith sydd wedi ei wneud o ganlyniad i'w cefnogaeth.

Sut medraf ddod yn aelod? Mae taflen wedi ei hatodi; NEU ewch i www.acwss.org.uk i lawrlwytho'r daflen; NEU, cysylltwch â Cris Tomos - Cydlynnydd Cronfa Ysgolion Bach Cymru (Hyb) ar 07974 099738.

Beth yw manteision cyfrannu? Wrth i ni gydweithio mae modd i ni wneud gwahaniaeth go iawn a chynorthwyo i achub ysgolion bach Cymru sy'n dymuno aros ar agor a bod wrth galon eu cymuned. Po fwyaf o aelodau sydd gennym ni, y mwyaf o adnoddau fydd gennym ni i ymchwilio i fuddiannau ysgolion bach a chodi ymwybyddiaeth o'r sefyllfa y mae ysgolion bychain Cymru ynddi.

Beth yw'r nod? Rydym yn edrych am 50 unigolyn yng Nghymru i gael pobl i gyfrannu £52,000 rhyngddynt bob blwyddyn. Mae angen yr enwau erbyn **dydd Mawrth, Tachwedd y 30^{ain}** fydd yn cyddaro gyda'r Ffair Aeaf yn Llanelwedd.

Dewch yn Hyrwyddwr i'r Gronfa Ysgolion Bach (Hyb) - Dywedwch wrth eich ffrindiau, teulu a chydweithwyr am y gronfa fel bod cymaint o bobl â phosib (o Gymru a thu hwnt) yn ymuno â ni.

Llawer o ddiolch



Cris Tomos

Cydlynnydd Cronfa Ysgolion Bach Cymru (Hyb)

ON: Sut gaiff y gronfa ei hyrwyddo? Mae'r hyrwyddwyr yn mynd at ffrindiau, teulu neu gydweithwyr sydd â diddordeb mewn diogelu ysgolion bach. Caiff pob hyrwyddwr £5 am bob ffurflen sydd wedi ei chwblhau - mae 20 ffurflen yn £100 o gomisiwn am yr amser a'r ymdrechion ac mae 200 o ffurflenni (gan ysgol, clwb mawr neu gymdeithas) yn £1000. Os ydych chi'n nabod grŵp neu berson sydd â diddordeb dywedwch wrthyn nhw am gysylltu â Cris. *Rhaid i bob hyrwyddwr gofrestru gyda ni cyn iddyn nhw ddechrau casglu.* I gofrestru, e-bostiwch Cris gyda'ch enw a'ch manylion cyswllt - cris@acwss.org.uk. Mae'n rhaid dychwelyd pob ffurflen at: Cris Tomos, Cronfa Ysgolion Bach Cymru (Hyb), Pantyrysgol, Hermon, Y Glôg, Sir Benfro. SA36 0DT.

Gorchymyn Archeb Sefydlog Standing Order Mandate

Dychwelwch at: Cronfa Ysgolion Bach Cymru (CYBC) Pantyrsgol, Hermon, Y Glôg, Sir Benfro. SA36 0DT	Please return to: Small Welsh Schools Fund (Hyb) Pantyrsgol, Hermon, Glogue, Pembrokeshire. SA36 0DT
---	--

Enw Name		Enw'r Banc Bank Name	
Cyfeiriad Address		Cyfeiriad y Banc Bank Address	
Côd Post Post Code		Côd Post Post Code	
Rhif Ffôn Tel No.		Côd Didoli Sort Code	- -
E-bost E-mail	(rhowch eich cyfeiriad e-bost er mwyn i chi dderbyn yr e-bwletin ac enwau'r enillwyr)	Enw Cyfrif Account Name	
		Rhif Cyfrif Account Number	

Byddwch gystal â thalu / Please Pay

Banc / Bank	Enw'r Gangen / Branch Title	Côd Didoli Sorting Code Number
Lloyds TSB	Aberteifi / Cardigan	30-91-65

Taler : Enw'r sawl sy'n derbyn yr arian / For the Credit of : Beneficiary's Name	Rhif y Cyfrif / Account Number
Cronfa Ysgolion Bach Cymru (CYBC) Small Welsh Schools Fund (SWSF)	0806593

Taliad Cyntaf (gweinyddiaeth):Swm mewn Ffigyrau First One-Off Payment (administration) : Amount in Figures	Swm mewn geiriau Amounts in Words
£6.00	Chwe Phunt Six Pounds
I ddechrau NAWR / To Commence NOW	

Swm Chwarterol bob 13 wythnos: Swm mewn Ffigyrau Quarterly Payments every 13 weeks : Amount in Figures	Swm mewn geiriau Amounts in Words
£13.00	Tair punt ar ddeg Thirteen Pounds
Talwch y £13.00 cyntaf ar ddechrau'r chwarter nesaf: Ionawr y 1 ^{af} , Ebrill y 1 ^{af} , Gorffennaf y 1 ^{af} , Hydref y 1 ^{af} Bob blwyddyn nes i ni eich hysbysu fel arall	Pay the first £13.00 at beginning of next quarter: 1 st January, 1 st April, 1 st July, 1 st October Every Year Until Further Notice

Llofnod(ion) Signature(s)
Dyddiad / Date :

Defnydd Swyddfa / Office Use:
Hyrwyddwr / Promoter